Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

Dylid cynnig brechiad Covid-19 i blant sy'n agored i niwed yn glinigol

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 1 November 2021

Cyfeirnod: SR21/0770-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1187

Teitl y ddeiseb: Dylid cynnig brechiad Covid-19 i blant sy'n agored i niwed yn glinigol

Geiriad y ddeiseb:

Mae brechlyn Pfizer rhag Covid-19 wedi cael ei gymeradwyo yn y DU i'w ddefnyddio ar gyfer plant 12-16 oed. Fodd bynnag, nid yw'r brechiad yn cael ei gynnig i blant yn y grŵp oedran hwnnw. Mae plant sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol mewn mwy o berygl o fynd i'r ysbyty a marw oherwydd Covid-19 na phlant yn gyffredinol. Rydym am i Lywodraeth Cymru gynnig y brechlyn i blant yn y grŵp oedran hwnnw sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant ag anableddau niwroddatblygiadol mewn perygl difrifol o fynd i'r ysbyty a marw oherwydd Covid-19. Mae'r rhain yn cynnwys plant â pharlys yr ymennydd, syndrom Down ac anabledd dysgu difrifol. https://adc.bmj.com/content/early/2021/01/04/archdischild-2020-321225

Yn y boblogaeth gyfan, mae cyfradd marwolaethau o Covid-19 yn uwch i bobl ag anabledd dysgu nag y mae i'r boblogaeth gyffredinol. https://www.gov.uk/government/news/people-with-learning-disabilities-had-higher-death-rate-from-covid-19

Ym mis Mawrth eleni, dyma a ganfu arolwg o 3,000 o deuluoedd a gynhaliwyd gan yr elusen Contact:

- Cynigiwyd brechiad rhag Covid-19 i 86 y cant o rieni â phlant anabl; fe'i cynigiwyd i ddau o bob tri fel gofalwyr di-dâl;
- Mae 70 y cant â phlant sy'n gwarchod neu sydd ag anabledd am iddynt gael brechlyn Covid-19 pan gaiff ei drwyddedu i'w ddefnyddio ar gyfer plant;
- Hoffai un o bob 10 gael mynediad at frechlyn Covid-19 heb drwydded ar unwaith, ond o'r rhai sydd wedi ceisio, dim ond tri o bob 200 sydd wedi llwyddo ei gael yn ddidrwydded.

1. Cefndir

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yn cynghori holl adrannau iechyd y DU ynghylch imiwneiddio, gan gynnwys cyngor ar frechu yn erbyn COVID-19.

Cynghorodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar 19 Gorffennaf 2021 y dylid cynnig brechlyn Pfizer-BioNTech i blant sydd â risg uwch o glefyd COVID-19 difrifol. Mae hynny'n cynnwys plant 12 i 15 oed â niwro-anableddau difrifol, syndrom Down, imiwnedd ataliedig, ac anableddau dysgu difrifol neu niferus. Nododd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu hefyd y dylid parhau i gynnig brechlyn COVID-19 i bobl ifanc rhwng 16 a 17 oed sydd â risg uwch o COVID-19 difrifol, yn unol â'u hargymhellion ar 30 Rhagfyr 2020.

Ar 3 Medi 2021, cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu gyngor wedi'i ddiweddaru ar roi'r brechlyn COVID-19 i blant rhwng 12 a 15 oed. Roedd hyn yn nodi, ar gyfer mwyafrif helaeth plant, bod haint SARS-CoV-2 yn asymptomatig neu'n dangos symptomau ysgafn ac y gellir ei datrys heb driniaeth, ac ystyriwyd bod y budd yn rhy fach i gefnogi brechiad COVID-19 cyffredinol ar gyfer y grŵp oedran hwn ar y pryd.

Mae cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yn nodi nad yw ei gylch gwaith yn cynnwys ystyried effeithiau cymdeithasol ehangach brechu pobl, ac mae Gweinidog Iechyd Cymru wedi dweud, ochr yn ochr â chenhedloedd eraill y DU, ei bod hi wedi gofyn i Brif Swyddog Meddygol Cymru ddarparu canllawiau 'cyn gynted â phosibl' ar fuddion clinigol a buddion iechyd ehangach brechu'r grŵp oedran hwn.

Fodd bynnag, ar ôl ystyried y data diweddaraf ynghylch nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty a nifer y marwolaethau, roedd cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar 3 Medi hefyd yn argymell ehangu'r rhestr o gyflyrau lle dylid cynnig y brechlyn i gynnwys plant rhwng 12 a 15 oed sydd â'r cyflyrau a ganlyn:

- Llid haematolegol;
- Clefyd crymangelloedd;
- Diabetes Math 1;
- Clefyd cynhenid y galon;
- Cyflyrau iechyd eraill fel y disgrifir yn Atodiad A i'r canllawiau.

Roedd Atodiad A yn y canllawiau'n cynnwys plant â chlefyd anadlol cronig; clefyd cronig y galon; cyflyrau cronig yr aren; yr afu neu'r system dreulio; anhwylderau endocrin; gwrthimiwnedd oherwydd afiechyd neu driniaeth; asplenia neu gamweithrediad y ddueg; annormaleddau genetig difrifol sy'n effeithio ar nifer o systemau; a chlefyd niwrolegol cronig. **Mae'r olaf o'r rhain yn cynnwys plant â pharlys yr ymennydd, anableddau dysgu difrifol neu niferus, syndrom Down, a'r rhai sydd ar y gofrestr anableddau dysgu.**

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar 3 Medi 2021, cyhoeddodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig yn derbyn argymhellion y Cyd-bwyllgor ar y cynnig estynedig, gan nodi:

> Bydd ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn gweithio'n gyflym i nodi'r plant a'r bobl ifanc hyn, a bydd eu Byrddau Iechyd yn cysylltu â hwy yn awtomatig. Nid oes angen i gleifion gysylltu â'u Byrddau Iechyd nac â chlinigwyr i wirio a ydynt yn gymwys. Bydd y plant a'r bobl ifanc hynny sydd eisoes yn gymwys yn unol â chyngor y Cyd-bwyllgor ynghylch cyflyrau iechyd penodol, wedi cael cynnig apwyntiadau erbyn hyn.

3. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn.

> Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r

papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.